

# Llawlyfr Ymholiadau Proffesiynol TAR

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru Partneriaeth TAR

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 4

**Ymholiadau proffesiynol myfyrwyr TAR y Brifysgol Agored** 4

**Datblygu'r ymholiadau proffesiynol** 8

**Ystyriaethau moesegol** 8

Defnyddio Cymwysiadau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (DAC) 10

**Cefnogi'r ymchwil yn yr ysgol** 11

**Casglu data** 12

**Ffynonellau cymorth** 14

Cymorth gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru 14

Ffynonellau mynediad agored 15

Adnoddau i fyfyrwyr Y Brifysgol Agored 15

**Porthgeidwad/Cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymholiadau proffesiynol graddfa fach** 17

**Rhestr wirio sampl ymholiad proffesiynol ar raddfa fach TAR ar gyfer protocolau moesegol a chydsyniad** 23

**Llythyr caniatâd enghreifftiol** 24

**Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer arsylwadau – staff y lleoliad** 26

**Ffurflen cydsynio enghreifftiol i arsylwad/arsylwadau – staff y lleoliad** **28**

**Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer arsylwadau – i gyfranogwr/ rhiant/ gwarcheidwad** **31**

**Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer cyfweliad(au)** **33**

**Ffurflen ganiatâd enghreifftiol ar gyfer cyfweliad(au)** **35**

**Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer holiaduron** **38**

**Cyfeiriadau** **40**

Ffigur 1: Enghreifftiau o ffocysau ymholiadau blaenorol ..... 7

Ffigur 2: Trosolwg o'r broses ymholiadau proffesiynol ..... 8

Tabl 1: Gofynion ffocws ymholiadau proffesiynol ..... 5

Tabl 2: Trosolwg o ystyriaethau moesegol ..... 9

Tabl 3: Trosolwg o ddulliau casglu data ..... 12

Tabl 4: Rhestr wirio enghreifftiol ar gyfer ymholiad cynllunio ..... 23

# Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys canllawiau a deunyddiau i gefnogi myfyrwyr TAR i gynllunio eu hastudiaeth ymchwil ymholiadau proffesiynol, sy'n un o ofynion rhaglen ar gyfer TAR 3 (Blwyddyn 2), Modiwl EE(XP)806. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'r staff ysgol gefnogi myfyrwyr gyda'u hymholiadau proffesiynol.

Bydd ymgymryd ag ymholiadau proffesiynol yn cefnogi myfyrwyr yn eu dysgu proffesiynol, ac yn cefnogi'r disgrifydd Statws Athro Cymwysedig (SAC) 'Mae'r athro, ar sail gwybodaeth, yn deall cyfraniad gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil gweithredol ar raddfa fechan at ddatblygiad arferion'.

Bydd ffocws yr astudiaethau ymchwil a wneir gan fyfyrwyr yn amrywio.

Gellir addasu'r dogfennau enghreifftiol yma i ddarparu ar gyfer gofynion myfyrwyr unigol ac ysgolion.

# Ymholiadau proffesiynol myfyrwyr TAR y Brifysgol Agored

Mae ymholiadau proffesiynol ym myd addysg yn ymchwiliad wedi'i strwythuro i arferion addysgegol, gyda'r nod o ddarganfod mwy am ddysgu ac addysgu. Gofynnir i fyfyrwyr Blwyddyn 2 TAR (TAR3) y Brifysgol Agored ddylunio ac ymgymryd ag ymholiad proffesiynol graddfa fach sy'n ymchwilio i agwedd benodol ar eu hymarfer eu hunain ac ystyried yr effaith ar ddysgu'r disgyblion. Gofynnir i fyfyrwyr hefyd ystyried sut mae ffocws eu hymholiad yn ymwneud â blaenoriaethau addysg cenedlaethol. Dylai ffocws yr ymholiad ymwneud â

cham dethol y myfyrwyr (cynradd/uwchradd) ac, i fyfyrwyr uwchradd, bydd angen iddo ymwneud â'u pwnc arbenigol. Caiff hyn ei grynhoi yn y tabl isod:

*Tabl 1: Gofynion ffocws ymholiadau proffesiynol*

| **Cynradd: rhaid i'r pwnc ymchwil/ffocws wneud y canlynol:** | **Uwchradd: rhaid i'r pwnc ymchwil/ffocws wneud y canlynol:** |
|---|---|
| Cefnogi blaenoriaeth addysg genedlaethol | Cefnogi blaenoriaeth addysg genedlaethol |
| Cefnogi dealltwriaeth o addysgeg yn y cwricwlwm cynradd ac ystyried yr effaith ar ddysgu'r plant. | Cefnogi dealltwriaeth o addysgeg disgyblaeth eich pwnc ac ystyried yr effaith ar ddysgu'r plant |

Bydd y broses o nodi a mireinio'r cwestiwn ymholiad proffesiynol yn cael ei chefnogi drwy seminarau prifysgol, darllen ac astudio modiwlau, trafodaeth â thiwtoriaid a staff ysgol.

Dyluniwyd ymholiadau proffesiynol i gefnogi'r myfyriwr wrth ddysgu am ymchwil addysgol a sut y gellir casglu data.

**Disgwyliwn y bydd y myfyriwr yn nodi ymyriad/dull yr hoffai roi cynnig arno yn ei ymarfer addysgegol ei hun a bydd yn casglu data i ystyried effaith y dull ar ddysgu**.

Er mwyn casglu data ac ystyried effaith yr ymyrraeth, gallai'r myfyriwr:

- arsylwi sefyllfa dysgu ac addysgu,
- holi staff neu ddysgwyr gan ddefnyddio holiadur,
- dadansoddi gwaith y dysgwr,
- cyfweld â dysgwr neu grŵp bach o ddysgwyr.

Rhaid i'r myfyriwr drafod ei ddull gyda'i fentor a/neu gydlynydd ysgol. Mae'r trafodaethau cychwynnol mewn perthynas â'r cyswllt ymchwil i Weithgaredd Ymarfer Dysgu 2 ar gyfer TAR3. Gofynnir i fyfyrwyr hefyd rannu eu canfyddiadau rhagarweiniol fel rhan o Weithgaredd Ymarfer Dysgu 8.

**Enghreifftiau o ffocysau ymholiadau proffesiynol blaenorol:**

Pa mor effeithiol yw cynllun eistedd wrth gefnogi ymddygiad ar gyfer dysgu mewn ystafell ddosbarth TGCh Blwyddyn 9?

Sut mae dysgwyr Blwyddyn 5 mewn gwersi Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu y brif ffrwd yn ymateb i'r defnydd o strategaethau i gefnogi dysgwyr ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig?

Ydy mini fyrddau gwyn yn cynyddu ymgysylltiad dysgwyr mewn dosbarth iaith Saesneg Blwyddyn 9?

Ymchwilio i effaith galwadau diwahoddiad ar ddysgwyr sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim mewn dosbarth mathemateg Cyfnod Allweddol 3 y brif ffrwd.

Ydy cyflwyno darllen annibynnol atebol yn cefnogi dysgwyr sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim mewn dosbarth Blwyddyn 8?

Beth yw effaith cyflwyno 'Sgwrs am Lyfrau' ar fwynhad dysgwyr Blwyddyn 4 o ddarllen?

Mae ymchwiliad i sut mae 'Clwb Lluniadu', sef dull seiliedig ar ddweud straeon, yn gwella cymhelliant a gwneud nodau ymhlith dysgwyr oed derbyn.

Ym mha ffyrdd y mae cyflwyno'r dull 'Model Cysylltiadau' i addysgu mathemateg yn cefnogi dysgwyr ym Mlwyddyn 3 i ddysgu'r berthynas luosiadol?

Archwilio'r defnydd o ddysgu yn yr awyr agored i hyrwyddo ymgysylltiad dysgwyr mewn gwersi mathemateg Blwyddyn 5.

Archwilio effaith tiwtora gan gymheiriaid ar rifedd wyddonol mewn dosbarth ffiseg Blwyddyn 9.


Sut mae'r rhyngweithio wythnosol gyda dysgwyr Blwyddyn 6 yn effeithio ar ddysgu cymdeithasol dysgwyr meithrin yn ystod gwahoddiadau i chwarae?

*Ffigur 1: Enghreifftiau o ffocysau ymholiadau blaenorol*

Caiff enghreifftiau pellach o ymholiadau proffesiynol a gynhaliwyd gan fyfyrwyr TAR yn flaenorol eu canfod yma.

# Datblygu'r ymholiadau proffesiynol

Gofynnir i fyfyrwyr fynychu cyfarfod gyda'u Tiwtor Cwricwlwm, a lle y bo'n bosibl, gyda'r mentor neu gydlynydd ysgol i amlinellu a thrafod y dull holiadur proffesiynol. Mae'r ffigur isod yn rhoi trosolwg o'r broses ymholiadau proffesiynol.




*Ffigur 2: Trosolwg o'r broses ymholiadau proffesiynol*

Gobeithio y bydd yr ymholiad o werth i'r myfyriwr, ond hefyd i eraill yn y lleoliad.

# Ystyriaethau moesegol

Dylai myfyrwyr ddilyn canllawiau moesegol ar gyfer ymchwil addysgol a ddarperir gan Gymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA, 2024).

Dylai unrhyw ran yn yr ymchwil fod yn gwbl wirfoddol ac ni ddylai darfu ar ddysgu ac addysgu. Cydsynio, neu yn achos dysgwyr o dan 18 oed, dylid cael cydsyniad gan bob cyfranogwr.

Mae'r tabl isod yn amlinellu rhai ystyriaethau moesegol allweddol, gyda throsolwg o argymhellion yng nghyd-destun yr ymholiadau proffesiynol graddfa fach.

*Tabl 2: Trosolwg o ystyriaethau moesegol*

| **Ystyriaeth BERA (2024)** | **Ymarfer moesegol a argymhellir** |
|---|---|
| Cyfrifoldeb i gyfranogwyr | Bod yn dryloyw ynghylch dewis cyfranogwyr<br><br>Parchu dewis parhaus cyfranogwyr i gymryd rhan fel rhan o'r gwaith casglu data: cynnig caniatâd ar sail gwybodaeth gwirfoddol (i gyfranogwyr o dan 18 oed/cydsyniad (ar gyfer cyfranogwyr dros 18 oed), cydsyniad gan y rhieni (i ddysgwyr), a'r hawl i dynnu'n ôl (ar gyfer pob cyfranogwr)<br><br>Parchu amser a lleoliad casglu data<br><br>Parchu cyfrinachedd neu anhysbysrwydd y cyfranogwyr<br><br>Bod yn dryloyw ynghylch ymholiadau a chanfyddiadau graddfa fach<br><br>Storio data yn gyfrifol ac yn ddiogel |
| Cyfrifoldeb i randdeiliaid | Cael cydsyniad gwybodus gan yr ysgol i gynnal ymholiadau proffesiynol a phrosesau moesegol |

| | |
|---|---|
| | Sicrhau cyfrinachedd yr ysgol<br><br>Dilyn prosesau a pholisïau'r ysgol (e.e. diogelu data, moeseg, diogelu)<br><br>Rhannu canfyddiadau â'r ysgol |
| Cyfrifoldeb mewn perthynas â chyhoeddi a rhannu | Sicrhau y caiff canfyddiadau eu hadrodd yn glir, yn onest ac yn agored |

**Ar y lefel hon, yr ysgol sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith ymchwil mewn ffordd foesegol a chyfrifol; mae hyn yn golygu mai'r ysgol yw'r porthgeidwad ar gyfer yr ymholiad proffesiynol. Rhaid i'r myfyriwr weithio gyda'i leoliad i sicrhau y caiff unrhyw dasgau ymchwil eu cyflawni mewn ffordd sy'n dderbyniol i'r rhai sy'n gyfrifol am staff a dysgwyr (gan gynnwys ymgynghori â pholisi diogelu'r ysgol). Cyfrifoldeb y myfyriwr yw casglu data sicrhau y caiff ei ymholiad proffesiynol ei gwblhau yn unol â'r ymarfer moesegol a gytunwyd.**

## Defnyddio Cymwysiadau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (DAC)

Er mwyn sicrhau cyfrinachedd yr ysgol a'r cyfranogwyr, dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol na ddylid defnyddio unrhyw ddata personol na data adnabyddadwy'r ysgol mewn unrhyw feddalwedd DAC a rhaid cadw'r holl ddata yn ddiogel. Os defnyddir DAC i gefnogi’r ymholiad proffesiynol (e.e. wrth ddadansoddi data) yna rhaid cydnabod hyn yn y ffurflen gymeradwyaeth foesegol (ceidwad porth) ac mewn cyflwyniadau aseiniadau, a rhaid i'r

myfyriwr amlinellu sut mae data'n cael ei ddienwi a'i drin yn foesegol. Noder bod yn rhaid i unrhyw gymhwysiad Deallusrwydd Artiffisial a ddefnyddir weithredu o fewn system ynysig lle nad oes unrhyw fewnbynnau'n cael eu rhannu nac yn hygyrch i eraill. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddatgelu enw penodol y cymhwysiad Deallusrwydd Artiffisial a ddefnyddir.

## Cefnogi'r ymchwil yn yr ysgol

Bydd y mentor TAR/cydlynydd ysgol yn goruchwylio'r gwaith ymchwil ac yn cytuno ar yr holl weithgareddau ymchwil cyn i'r myfyriwr ymgymryd â'i ymholiad. Bydd hyn yn cynnwys:

a) rhoi caniatâd i'r myfyrwyr gysylltu â darpar gyfranogwyr ar gyfer tasgau ymchwil,

b) cytuno ar fanylion y cydsyniad sy'n ofynnol, a

c) monitro'r gwaith o gasglu a storio data, gan gynnwys ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi, a chytuno ar adnoddau ymchwil, fel holiaduron/cwestiynau cyfweld.

Rhoddir arweiniad gan gynnwys taflenni gwybodaeth enghreifftiol a ffurflenni cydsynio. Fodd bynnag, os oes gennych eisoes brosesau ar waith yn eich lleoliad i warchod cyfranogwyr mewn gweithgareddau ymchwil, yna gellir defnyddio'r rhain. Dylai'r myfyriwr a'r mentor drafod y taflenni gwybodaeth a'r ffurflenni cydsynio a ddefnyddir, gan gofnodi cymeradwyaeth yn ffurflen y porthgeidwad. Dylai ffurflen y porthgeidwad gael ei rhannu â Thiwtor y Cwricwlwm, wedi'i uwchlwytho i adran Ymddygiad Proffesiynol y myfyriwr o'r

Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP), a'i hatodi i gynnig ymholiad proffesiynol y myfyriwr, sy'n Aseiniad a Gaiff ei Farcio gan Diwtor (TMA).

Bydd data personol yn cael eu casglu ar ffurf llofnodion ar ffurflenni cydsynio yn unig, a bydd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel a'u dinistrio ar ôl i'r dasg gael ei chwblhau.

Caiff cyfrinachedd/anhysbysrwydd ei sicrhau – bydd yr holl ddata a gesglir ar ffurf nodiadau dienw neu ymatebion anhysbys. Bydd y data yn cael eu storio'n ddiogelu a'u dinistrio ar ôl i'r ymholiad gael ei gwblhau.

Dylid codi enwau pob ysgol neu gyfranogwr o waith y myfyriwr sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion ymchwil neu rannu.

# Casglu data

Fel y nodwyd o'r blaen, disgwyliwn y bydd y myfyriwr yn dylunio ymholiad proffesiynol graddfa fach sy'n golygu bod myfyrwyr yn rhoi cynnig ar ddull newydd (ymyrraeth) yn eu hymarfer addysgegol ac yn archwilio'r effaith ar ddysgu. Yn nodweddiadol, gall yr adnoddau casglu data fod yn gyfuniad o rai o'r dulliau sy'n cael eu dangos yn y tabl isod.

*Tabl 3: Trosolwg o ddulliau casglu data*

| **Dull casglu data** | **Math o ddata** | **Rhai ystyriaethau** |
|---|---|---|
| Arsylwi | Fel rheol, bydd data ansoddol, y gall rhai data | A fydd strwythur i'r arsylwi (e.e. chwilio am bethau penodol ar achlysuron dynodedig gan ddefnyddio templed arsylwi) |

| | | |
|---|---|---|
| | fod yn feintiol, os caiff rhai agweddau eu cyfrif | neu a fydd yn ddi-strwythur (e.e. nodiadau ad hoc wrth a phan fydd rhywbeth yn digwydd)?<br><br>Pwy fydd yn arsylwi, pryd a sut bydd yn gwneud hynny?<br><br>Pa mor aml fydd yr arsylwadau'n digwydd (e.e. gwersi gosod/yn ôl yr angen/wythnosol ac ati)?<br><br>Sut bydd yr arsyllydd yn sicrhau bod y data mor ddibynadwy â phosibl (e.e. heb fod yn oddrychol)?<br><br>A fydd unrhyw gofnodi (e.e. recordiad sain/fideo) i gefnogi'r arsylwi? |
| Cyfweliad | Ansoddol | A fydd y cyfweliad(au) gydag unigolion neu grŵp?<br><br>Pryd a ble y byddant yn cael eu cynnal?<br><br>A fydd y cyfweliad(au) yn cael ei strwythuro (gofyn cwestiynau gosod yn yr un ffordd), ei led-strwythuro (cwestiynau penodol gyda chyfle i ddilyn i fyny) neu yn agored/dan arweiniad y cyfranogwyr?<br><br>A fydd awgrymiadau/deunydd gweledol i gefnogi ymatebion y dysgwyr (os yn berthnasol)?<br><br>A fydd unrhyw recordiad sain/fideo i gefnogi'r broses o adalw'r hyn ddywedwyd? |
| Dadansoddi gwaith dysgwyr | Fel rheol, bydd data ansoddol, y gall rhai data fod yn feintiol, os caiff rhai | Beth fydd yn cael ei ddadansoddi? Gwaith pwy?<br><br>Am beth fyddwch chi'n chwilio yn y dadansoddiad?<br><br>Pa mor aml fyddwch chi'n ystyried gwaith y dysgwr? |

| | | |
|---|---|---|
| | agweddau eu cyfrif | Sut byddwch yn cofnodi'r dadansoddiad o waith y dysgwr? |
| Arolwg/ holiadur | Gall fod yn gymysgedd o ddata meintiol ac ansoddol | Pwy fyddwch chi'n holi? Sut byddwch yn holi a phryd bydd yn digwydd?<br><br>Os byddwch yn gofyn i'r dysgwyr, sut gallech gefnogi dysgwyr i ddeall y cwestiynau?<br><br>Pa fath o gwestiynau fyddwch chi'n gofyn? Sut byddwch yn sicrhau bod y cwestiynau yn glir ac yn ddiamwys? |

Ar gyfer ystyriaethau mewn perthynas â buddiannau a chyfyngiadau potensial y dulliau hyn, gweler tt.7-9 Prifysgol Metropolitan Caerdydd (2019), yma.

# Ffynonellau cymorth

## Cymorth gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Bydd Tiwtor Cwricwlwm y myfyriwr yn goruchwylio'r ymholiad proffesiynol.

Yn ogystal, gellir cysylltu â'r bobl hyn os oes unrhyw ymholiadau:

| Enw | Cyswllt | Rôl |
|---|---|---|
| Rachel Wallis | rachel.wallis@open.ac.uk | Cadeirydd Modiwl Blwyddyn 2 |
| Sam McAlister-Wilson | sam.mcalister-wilson@open.ac.uk | Cydymaith Ymchwil (TAR) |

Bydd y ffynonellau canlynol yn ganllawiau defnyddiol ar gyfer yr ymholiad proffesiynol

## Ffynonellau mynediad agored

Mae'r adnoddau isod yn adnoddau mynediad agored sydd ar gael i ysgolion a myfyrwyr i gefnogi gwaith cynllunio ymholiadau proffesiynol:

Mae Undertaking professional enquiry: an introduction for lead enquirers, ar gael yn: Microsoft Word - SG CONTENT Ymgymryd ag Ymholiadau Proffesiynol 10.19 (002)-2.docx

Mae canllawiau 'How to' Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) ar gael yma: Research in Schools Guides - NFER

Cyflwyniad i Waith Ymchwil: Mae dewis o fideos a chanllawiau i gefnogi ymchwil agos at y practis ar gael yma

## Adnoddau i fyfyrwyr Y Brifysgol Agored

Mae'r adnoddau isod ar gael drwy lyfrgell Y Brifysgol Agored.

Dulliau ymchwil ymarferol ym myd Addysg: canllaw beirniadol ymchwilydd cynnar, sydd ar gael i fyfyrwyr fel e-lyfr yn llyfrgell Y Brifysgol Agored Practical Research Methods in Education | An Early Researcher's Critic

Mae Doing Classroom Research: a Step-By-Step Guide for Student Teachers, ar gael i fyfyrwyr fel e-lyfr yn llyfrgell Y Brifysgol Agored https://ebookcentral.proquest.com/lib/open/detail.action?docID=369498

Dulliau ymchwil ym myd addysg, sydd ar gael i fyfyrwyr fel e-lyfr yn llyfrgell Y Brifysgol Agored

https://ebookcentral.proquest.com/lib/open/detail.action?docID=5103697

# Porthgeidwad/Cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymholiadau proffesiynol graddfa fach

**I'w gwblhau gan y darpar athro ar ôl trafodaeth gyda'r Cydlynydd Ysgol, ceidwad y porth a'r Mentor.**

Enw'r Myfyrwr:

Enw'r porth-geidwad (Cydlynydd Ysgol/uwch-aelod o'r staff):

Enw'r Cydlynydd Ysgol:

Enw'r Mentor:

Ar y lefel hon, yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y myfyrwr yn cyflawni'r gwaith ymchwil mewn ffordd foesegol a chyfrifol. Darperir canllawiau manwl ar gyfer yr ymholiad proffesiynol i fyfyrwyr a rhaid iddynt weithio gyda'i leoliad i sicrhau y caiff unrhyw dasgau ymchwil eu cyflawni mewn ffordd sy'n dderbyniol i'r rhai sy'n gyfrifol am staff a dysgwyr (gan gynnwys ymgynghori â pholisi diogelu'r ysgol). **Cyfrifoldeb y myfyrwr yw casglu data a sicrhau y caiff ei ymholiad proffesiynol ei gwblhau**.

Darperir manylion am yr ymholiad isod.

Gofynnir i'r porthgeidwad lofnodi i gydnabod bod hyn wedi'i drafod gyda'r myfyrwr.

**Rhaid i'r myfyrwr e-bostio copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau at y Tiwtor Cwricwlwm, y porthgeidwad, Cydlynydd Ysgol a'r Mentor. Dylid hefyd rhoi copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau yn adran Ymddygiad Proffesiynol y PDP.**

| **Trosolwg o'r ymholiadau proffesiynol** | I'w cwblhau gan y myfyriwr (pwyntiau bwled/nodiadau clir) |
|---|---|
| Maes ffocws: Nodwch faes diddordeb a sut mae'n ymwneud â'ch ymarfer eich hun a blaenoriaeth genedlaethol | |
| Ymyrraeth awgrymedig: Nodwch pa gamau y byddwch yn eu cymryd yn eich addysgu | |
| Cwestiwn/cwestiynau ymchwil: Nodwch yr hyn rydych chi'n ceisio ei ddarganfod. | |
| Mae'r llenyddiaeth allweddol yn gysylltiedig â ffocws *(3-5 cyfeiriad – noder y dylai erthyglau allweddol mewn cyfnodolion fod ar gael yn eich Ffolder Addysgu)* | |
| Cyfranogwyr (cynnwys manylion fel yr ystod/au oedran a'r nifer awgrymedig o gyfranogwyr). | |

| | |
|---|---|
| Offer ymchwil<br><br>Nodwch pa rai o'r offer ymchwil hyn y byddwch chi'n eu defnyddio ac, os ydych chi'n eu defnyddio, sut y byddant yn cael eu defnyddio (gweler Tabl 3 yn y ddogfen hon i gefnogi'r adran hon)<br><br>Arsylwi<br><br>Cyfweliad/au<br><br>Dadansoddiad o waith dysgwyr<br><br>Arolwg/holiadur<br><br>Arall | |
| Ystyriaethau Moesegol: sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn dilyn BERA 2024 ar gyfer eich ymholiad (gweler Tabl 2 yn y ddogfen hon), e.e.<br><br>• Dethol cyfranogwyr<br>• Caniatâd a/neu gydsyniad<br>• Cyfrinachedd a/neu anhysbysrwydd | |

| | |
|---|---|
| • Parchu cyfranogwyr – e.e. hawl i dynnu'n ôl, lleoliad ac amseru'r gwaith o gasglu data ac ati. | |
| Os ydych chi'n bwriadu defnyddio DAC i gefnogi'r ymholiad, nodwch sut y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio'n foesegol (gweler y canllawiau yn y ddogfen hon) | |
| **Cerrig Milltir Arfaethedig (dyddiadau):** [Gallai tabl/siart llif cerrig milltir ar wahân gael ei rannu] | Yn yr adrannau isod, ychwanegwch eich dyddiadau eich hun i gefnogi eich gwaith cynllunio ymholiadau proffesiynol. Y dyddiadau mewn ffont trwm yw'r dyddiadau asesu nad oes modd eu newid. |
| Trafodaeth ymchwil gyda'ch mentor (cyswllt i Weithgaredd Ymarfer Dysgu 2): | |
| Trafodaeth â phorthgeidwad: sgwrs ymholiad proffesiynol gyda'r Mentor a Tiwtor Cwricwlwm | |

| | |
|---|---|
| Cwblhawyd adolygiad o lenyddiaeth | |
| **Cyflwyno'r ATM: Cynnig ar gyfer ymholiad proffesiynol ac adolygiad o lenyddiaeth (2500 o eiriau)** | **19/11/26** |
| Cyfnod casglu data | |
| Dadansoddi Data | |
| Cyflwyniad data/trafodaeth â'r ysgol (cyswllt â Gweithgaredd Ymarfer Dysgu 7) | |
| Ysgrifennwch drafodaeth feirniadol o ganfyddiadau ac effaith ar ymarfer | |
| Prawf ddarllen | |
| **Cyflwyno Tasg 1 ADM: Adroddiad ymholiadau proffesiynol (1500 o eiriau) ynghyd â phoster ymchwil** (Cofiwch y bydd rhaid i chi hefyd gyflwyno tasg 2 ar y dyddiad hwn) | **29/4/27** |

Rwy'n cydsynio i'r myfyriwr-athro a enwir uchod i ymgymryd â'r ymholiad proffesiynol graddfa fach a amlinellir uchod, yn unol â'r ystyriaethau moesegol a nodir uchod a gyda chymorth eu mentor a/neu gydlynydd ysgol.

Llofnodwyd: (porth-geidwad)

Dyddiad:

**Os oes unrhyw ymholiadau ynghylch ymholiad proffesiynol a chymeradwyaeth foesegol unrhyw athrawon dan hyfforddiant, anfonwch e-bost at y Tiwtor Cwricwlwm, cadeirydd y modiwl Rachel Wallis, rachel.wallis@open.ac.uk, neu'r Cydymaeth Ymchwil Sam McAlister Wilson, sam.mcalister-wilson@open.ac.uk.**

Rwy'n cydnabod fy mod wedi trafod yr ymholiad proffesiynol hwn gyda'r porthceidwad yn yr Ysgol, fy Nghydlynydd Ysgol a'm Mentor a'u bod wedi cytuno ar y dull hwn.

(Dylai'r myfyrwr dicio'r blwch i gydnabod yr uchod) ☐

Rwy'n cydnabod y byddaf yn dilyn canllawiau'r ysgol a chanllawiau moesegol (e.e. BERA, 2024) i gynnal fy ymholiad proffesiynol yn foesegol.

(I'r myfyrwr dicio'r blwch i gydnabod yr uchod) ☐

# Rhestr wirio sampl ymholiad proffesiynol ar raddfa fach TAR ar gyfer protocolau moesegol a chydsyniad

Dyma restr wirio/crynodeb enghreifftiol o'r deunydd sy'n gysylltiedig ag ymchwil i fyfyrwyr TAR gytuno arno gyda'u lleoliad a'u Mentor cyn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ymchwil. Gellir addasu hyn yn ôl yr ymholiad unigol.

Rhowch farc yn y blychau ar ôl i chi gytuno ar eich dull ymchwil ac ar ôl i'r taflenni gwybodaeth a'r ffurflenni cydsyniad gael eu cymeradwyo gan eich mentor. Gellir defnyddio'r golofn arall i nodi sut rydyn yn defnyddio'r rhain e.e. dyddiadau dychwelyd a awgrymir, nifer y cyfranogwyr.

[Dylech roi croes drwy unrhyw adnoddau nad ydynt yn berthnasol i'ch ymholiad neu eu dileu].

*Tabl 4: Rhestr wirio enghreifftiol ar gyfer ymholiad cynllunio*

| **Porthgeidwad yr ysgol/Tiwtor Cwricwlwm** | | **Nodiadau Ychwanegol (opsiynol)** |
|---|---|---|
| ☐ | Rhannwyd y canllawiau gyda'r porthgeidwad | |
| ☐ | Cafwyd cydsyniad y porthgeidwad | |
| ☐ | Cymeradwyaeth wedi'i chyflwyno i Diwtor Cwricwlwm yn rhan o ATM | |

| Casglu data | | |
|---|---|---|
| ☐ | Llythyr gwybodaeth a cydsyniad i gyfranogwyr | |
| **Cymeradwyaeth y mentor** | | |
| ☐ | Cytunwyd ar ffocws a chynllun yr ymholiad | |
| ☐ | Cytunwyd ar y llythyrau gwybodaeth a'r ffurflenni cydsynio | |

# Llythyr caniatâd enghreifftiol

*Sylwch y gellid rhannu/cwblhau hwn drwy ddull cyfathrebu ysgol sy'n briodol i'r ysgol. Rhaid i unrhyw lythyr a anfonir gael ei gymeradwyo gan porthgeidwad yr ysgol neu'r Mentor..*

Annwyl riant/gofalwr,

Rwy'n Darpar Athro TAR yn ysgol eich plentyn ac ar hyn o bryd rwy'n cynnal ymholiad proffesiynol ar raddfa fach gyda ffocws ar [ychwanegwch eich ffocws/teitl]. Rhoddwyd caniatâd amlinellol gan porthgeidwad yr ysgol [cynnwys enw penodol a/neu deitl ceidwad porth yr ysgol].

Bydd yr ymholiad yn cael ei gynnal fel rhan o arfer safonol yn yr ystafell ddosbarth [cynnwys gwybodaeth fel gyda'r holl ddosbarth/gyda grwpiau ac ati, yn ôl yr angen]. Efallai y gofynnir i rai dysgwyr hefyd fod yn gyfranogwyr yn yr ymchwil drwy ddarparu data i helpu i ddeall ymatebion disgyblion i'r dull

addysgu sy'n cael ei archwilio. Byddai hyn yn cynnwys (dileu/addasu isod yn ôl yr angen)

• arsylwi dysgu cyfranogwyr

• arolwg ar gyfer cyfranogwyr gan ddefnyddio holiadur

• dadansoddi gwaith cyfranogwyr (e.e. cyn ac ar ôl ymyrraeth),

• cyfweliad â chyfranogwyr

• Arall

Bydd yr holl ddata a gesglir yn cael ei gadw'n ddiogel mewn ffolder wedi'i diogelu gan gyfrinair a byddai'n cael ei gadw'n gyfrinachol, a'i ddefnyddio ar gyfer yr ymholiad yn unig. Ni fyddai cyfranogwyr na'r ysgol yn cael eu hadnabod mewn unrhyw waith sy'n deillio o'r ymholiad (e.e. cynnig ymholiad proffesiynol, adroddiad a phoster fel rhan o asesiad TAR). Gall cyfranogwyr dynnu'n ôl o'r casgliad data ar unrhyw adeg os nad ydynt am gymryd rhan mwyach.

Os ydych chi'n fodlon i'ch plentyn gael ei ofyn a hoffent fod yn gyfranogwr yn yr ymholiad hwn, cwblhewch y ffurflen ganiatâd isod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â [ychwanegwch eich manylion cyswllt cytunedig] ac os oes gennych unrhyw bryderon am yr ymholiad, byddech chi'n gallu cysylltu â cheidwad porth yr ysgol.
[mewnosodwch enw]

\-----------------------------------------------------

CYDSYNIAD

Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i ____________________ fod yn gyfranogwr yn yr ymholiad proffesiynol [mewnosodwch deitl].

Rwy'n deall y gall cyfranogwyr dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

Llofnod___________________________

Dyddiad:____________________

Argraffwch

enw:______________________________________________

## Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer arsylwadau – staff y lleoliad

**Beth yw nod yr arsylwad hon?**

Hoffwn i *[rhowch eich enw]* arsylwi ar weithgaredd rydych yn ei arwain *[rhowch ddisgrifiad],* a hoffwn ofyn a gaf i wneud hyn ac, os felly, hoffwn drefnu lle, dyddiad ac amser cyfleus. Rwy'n astudio gradd Tystysgrif Addysg i Raddedigion gyda'r Brifysgol Agored, ac mae'r arsylwad hon yn rhan ymholiad proffesiynol sy'n un o ofynion y cwrs. Mae fy ymholiad yn ymchwilio i *[rhowch ddisgrifiad byr].* Rhoddwyd cydsyniad amlinellol gan *[rhowch enw neu deitl penodol Porthgeidwad y Lleoliad]*

**Os byddwch yn cymryd rhan yn yr ymholiad ymchwil hwn, beth fydd hynny yn ei olygu?**

Cynhelir yr arsylwad mewn lle ac ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i ni, yn unol â'r hyn y byddwn yn cytuno arno ymlaen llaw. Byddaf yn rhannu gwybodaeth â

chi am y ffordd roeddwn yn gobeithio y gellir casglu data drwy amserlen arsylwi. Byddaf yn defnyddio canlyniadau'r trafodaethau hyn wrth lunio'r daflen wybodaeth i'w rhannu â'r bobl a fydd yn bresennol ar gyfer y gweithgaredd yr arsylwir arno yn ogystal â rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid unrhyw un o dan 18 oed. Gofynnir i unrhyw un sydd ag ymholiadau neu bryderon gysylltu â mi fel y gellir ystyried a ddylid mynd rhagddo â'r arsylwad ai peidio. Bydd angen i ni drafod dyddiad dychwelyd ar gyfer unrhyw ymatebion o'r fath, a fydd yn rhoi cyfle i ni drafod y ffordd orau o ymateb i ddymuniadau'r plant hyn a'u rhieni/gofalwyr.

**Beth fydd ffocws yr arsylwad?**

Ffocws yr arsylwad fydd dysgu am *[rhowch wybodaeth gryno].*

**A gaiff y data a gesglir yn ystod yr arsylwad eu cadw'n gyfrinachol?**

Caiff eich cyfranogiad ei drin yn **gwbl gyfrinachol** yn unol â Deddf Diogelu Data (2018). Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei rhannu â neb arall. Byddaf yn teipio fy nodiadau amserlen arsylwi cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan ddileu unrhyw nodweddion y gellir eu defnyddio i adnabod unigolion. Bydd cofnodion dienw yn cael eu creu a bydd ffeiliau digidol dienw yn cael eu storio ar ddyfeisiau a ddiogelir gan gyfrinair. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus bydd y ffeiliau hyn yn cael eu dinistrio. Mae'n bosibl y byddaf yn rhannu'r ffeiliau dienw â fy mentor. Byddaf yn cyflwyno dadansoddiad o'r data a gasglwyd o'r arsylwad fel rhan o'm haseiniad. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi fel unigolyn, nac i adnabod y bobl yr arsylwir arnynt na'r lleoliad.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Dylech ddarllen a chwblhau'r ffurflen gydsynio. Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Gallwch dynnu nôl, hyd yn oed ar ôl rhoi cydsyniad cychwynnol, hyd at wythnos ar ôl yr arsylwad. Caiff unrhyw ddata a gasglwyd yn ystod yr arsylwad eu dinistrio yn yr achos hwn.

**Beth fydd yn digwydd os bydd cwestiynau eraill gennyf?**

Os bydd unrhyw gwestiynau eraill gennych am yr ymholiad, byddwn i'n fwy na pharod i'w hateb, neu byddai fy mentor yn fodlon gwneud hynny. Cysylltwch â mi yn *[rhowch eich enw a chyfeiriad e-bost]* neu fy mentor *[rhowch enw a chyfeiriad e-bost eich mentor]*.

## Ffurflen cydsynio enghreifftiol i arsylwad/arsylwadau – staff y lleoliad

Atebwch bob cwestiwn isod drwy roi marc yn y blwch priodol a dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau erbyn *[dyddiad]* at *[enw a dull cysylltu]*:

**YDW** **NAC YDW**

1. Ydych chi wedi deall y wybodaeth am yr arsylwad a gynllunnir?

☐ ☐

2. Ydych chi wedi cael eglurhad o natur a nodau'r arsylwad ?

☐ ☐

3. Ydych chi'n deall beth fydd yr arsylwad hwn yn ei olygu?

☐ ☐

4. Ydych chi'n deall sut y caiff data eu casglu amdanoch yn ystod yr arsylwad?

   ☐ ☐

5. Ydych chi'n fodlon ar y trefniadau ar gyfer storio eich data?

   ☐ ☐

6. Ydych chi wedi gofyn pob cwestiwn rydych am ei ofyn?

   ☐ ☐

7. Ydych chi wedi cael atebion digonol i'ch cwestiynau?

   ☐ ☐

8. Ydych chi'n deall bod modd i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl hyd at wythnos ar ôl yr arsylwad?

   ☐ ☐

9. Ydych yn fodlon cymryd rhan yn yr arsylwad?

   ☐ ☐

Os byddwch wedi rhoi'r ateb 'NAC YDW' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, mae croeso i chi ofyn am ragor o wybodaeth. Fodd bynnag, os **nad ydych** yn awyddus i gymryd rhan yn yr arsylwad, rhowch wybod i'r ymchwilydd a **pheidiwch** â llofnodi'r ffurflen.

Os byddwch yn cydsynio i gymryd rhan yn yr arsylwad, llofnodwch y ffurflen a rhowch eich enw mewn llythrennau bras ynghyd â dyddiad heddiw. Cewch dynnu eich cydsyniad yn ôl hyd at wythnos ar ôl yr arsylwad drwy roi gwybod i mi.

Eich enw:

____________________________________________________________

Eich llofnod: ______________________________________ Dyddiad:

__________________

Yr ymchwilydd a fydd yn cynnal yr arsylwad i lofnodi isod:

Enw mewn llythrennau bras:

____________________________________________________________

Llofnod: ______________________________________________

Dyddiad: __________________

**Diolch am eich help.**

## Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer arsylwadau – i gyfranogwr/ rhiant/ gwarcheidwad

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi y bydd *[rhowch eich enw]* yn arsylwi ar *[rhowch enw'r dosbarth]* mewn gwers neu *[sesiwn]* ar *[rhowch enw'r pwnc]* ar *[rhowch ddyddiad].*

Rwy'n astudio gradd Tystysgrif Addysg i Raddedigion gyda'r Brifysgol Agored, ac mae'r arsylwad hwn yn rhan o ymholiad proffesiynol sy'n un o ofynion y cwrs. Mae fy ymholiad yn ymchwilio i *[rhowch ddisgrifiad byr].* Rhoddwyd cydsyniad amlinellol gan *[rhowch enw neu deitl penodol Porthgeidwad y Lleoliad]*

Bydd yr arsylwad yn para *[rhowch amser, lle a dyddiad y sesiwn fel sy'n briodol, gan gynnwys sut y caiff y data eu casglu].*

**Beth fydd ffocws yr arsylwad?**

Ffocws yr arsylwad fydd dysgu am *[rhowch wybodaeth gryno].*

**A gaiff y data a gesglir yn ystod yr arsylwad eu cadw'n gyfrinachol?**

Caiff unrhyw gyfranogiad ei drin yn **gwbl gyfrinachol** yn unol â Deddf Diogelu Data (2018). Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei rhannu â neb arall. Byddaf yn teipio fy nodiadau amserlen arsylwi cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan ddileu unrhyw nodweddion y gellir eu defnyddio i adnabod unigolion. Bydd cofnodion dienw yn cael eu creu a bydd ffeiliau digidol dienw yn cael eu storio ar ddyfeisiau a ddiogelir gan gyfrinair. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus bydd y ffeiliau hyn yn cael eu dinistrio. Mae'n bosibl y byddaf yn rhannu'r ffeiliau dienw â fy mentor. Byddaf yn cyflwyno dadansoddiad o'r data a gasglwyd o'r arsylwad fel rhan o'm haseiniad. Ni fydd yn bosibl adnabod unrhyw un sy'n cymryd rhan yn yr arsylwad na'r lleoliad.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Os bydd unrhyw gwestiynau neu bryderon gennych, neu os ydych o'r farn ei bod yn debygol y bydd eich plentyn yn poeni am fy mhresenoldeb yn yr ystafell ddosbarth, cysylltwch â mi yn *[rhowch gyfeiriad e-bost]* neu â fy mentor yn *[rhowch gyfeiriad e-bost]* erbyn *[rhowch ddyddiad].*

# Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer cyfweliad(au)

**Beth yw nod y cyfweliad hwn?**

Hoffwn i *[rhowch eich enw]* gyfweld â chi am *[rhowch ddisgrifiad],* a hoffwn ofyn a yw hyn yn bosibl os gwelwch yn dda ac, os felly, hoffwn drefnu lle, dyddiad ac amser cyfleus. Rwy'n astudio gradd Tystysgrif Addysg i Raddedigion gyda'r Brifysgol Agored, ac mae'r cyfweliad hwn yn rhan o ymholiad proffesiynol sy'n un o ofynion y cwrs. Mae fy ymholiad yn ymchwilio i *[rhowch ddisgrifiad byr].* Rhoddwyd cydsyniad amlinellol gan *[rhowch enw neu deitl penodol Porthgeidwad y Lleoliad]*

**Os byddwch yn cymryd rhan yn yr ymholiad proffesiynol, beth fydd hynny yn ei olygu?**

Cynhelir y cyfweliad mewn lle ac ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i ni, yn unol â'r hyn y byddwn yn cytuno arno ymlaen llaw.

**A gaiff y data a gesglir yn ystod y cyfweliad eu cadw'n gyfrinachol?**

Caiff eich cyfranogiad ei drin yn **gwbl gyfrinachol** yn unol â Deddf Diogelu Data (2018). Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei rhannu â neb arall. Byddaf yn teipio fy nodiadau cyfweliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan ddileu unrhyw nodweddion y gellir eu defnyddio i adnabod unigolion. Bydd cofnodion dienw yn cael eu creu a bydd ffeiliau digidol dienw yn cael eu storio ar ddyfeisiau a ddiogelir gan gyfrinair. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus bydd y ffeiliau hyn yn cael eu dinistrio.  Mae'n bosibl y byddaf yn rhannu'r ffeiliau dienw â fy

mentor. Byddaf yn cyflwyno dadansoddiad o'r data a gasglwyd o'r cyfweliad fel rhan o'm haseiniad. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi fel unigolyn, nac i adnabod y bobl eraill y cyfwelwyd â nhw na'r lleoliad.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Dylech ddarllen a chwblhau'r ffurflen gydsynio. Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Gallwch dynnu yn ôl, hyd yn oed ar ôl rhoi cydsyniad cychwynnol, hyd at wythnos ar ôl y cyfweliad. Caiff unrhyw ddata a gasglwyd yn ystod y cyfweliad eu dinistrio yn yr achos hwn.

**Beth fydd yn digwydd os bydd cwestiynau eraill gennyf?**

Os bydd unrhyw gwestiynau eraill gennych am yr ymholiad, byddwn i'n fwy na pharod i'w hateb, neu byddai fy mentor yn fodlon gwneud hynny. Cysylltwch â mi yn *[rhowch eich enw a chyfeiriad e-bost]* neu fy mentor *[rhowch enw a chyfeiriad e-bost eich mentor].*

# Ffurflen ganiatâd enghreifftiol ar gyfer cyfweliad(au)

Atebwch bob cwestiwn isod drwy roi marc yn y blwch priodol a dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau erbyn *[dyddiad]* at *[enw a dull cysylltu]*:

**YDW** **NAC YDW**

1. Ydych chi wedi darllen y wybodaeth am y cyfweliad (neu ydy rhywun wedi ei darllen i chi)?

   ☐ ☐

2. Ydych chi wedi cael eglurhad o'r cyfweliad hwn gan rywun?

   ☐ ☐

3. Ydych chi'n deall beth fydd pwnc y cyfweliad hwn?

   ☐ ☐

4. Ydych chi wedi gofyn pob cwestiwn rydych am ei ofyn am y cyfweliad?

   ☐ ☐

5. Ydych chi wedi cael atebion i'ch cwestiynau y gallwch eu deall?

☐ ☐

6. Ydych chi'n deall ei bod yn iawn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y cyfweliad ar unrhyw adeg?

☐ ☐

7. Ydych chi'n fodlon cymryd rhan yn y cyfweliad?

☐ ☐

Os byddwch wedi rhoi'r ateb 'NAC YDW' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, mae croeso i chi ofyn am ragor o wybodaeth. Fodd bynnag, os **nad ydych** yn awyddus i gymryd rhan yn y cyfweliad, rhowch wybod i'r ymchwilydd a **pheidiwch** â llofnodi'r ffurflen.

Os byddwch yn cydsynio i gymryd rhan yn y cyfweliad, llofnodwch y ffurflen a rhowch eich enw mewn llythrennau bras ynghyd â dyddiad heddiw.

Eich enw:

------------------------------------------------------------

Eich llofnod: ______________________________________ Dyddiad:

__________________

*Os oes angen*:

Enw'r rhiant/gwarcheidwad:

_______________________________________________________

Llofnod y rhiant/gwarcheidwad: ____________________________

Dyddiad: _________________

Yr ymchwilydd a fydd yn cynnal y cyfweliad i lofnodi isod:

Enw mewn llythrennau bras:

_______________________________________________________

______

Llofnod: ____________________________________________

Dyddiad: _________________

**Diolch am eich help.**

# Llythyr gwybodaeth enghreifftiol ar gyfer holiaduron

**Beth yw nod yr holiadur hwn?**

Hoffwn i *[rhowch eich enw]* i chi gwblhau holiadur/arolwg. Rwy'n astudio gradd Tystysgrif Addysg i Raddedigion gyda'r Brifysgol Agored, ac mae'r holiadur hwn yn rhan o ymholiad proffesiynol sy'n un o ofynion y cwrs. Mae fy ymholiad yn ymchwilio i *[rhowch ddisgrifiad byr].* Rhoddwyd cydsyniad amlinellol gan *[rhowch enw neu deitl penodol Porthgeidwad y Lleoliad].*

**Os byddwch yn cymryd rhan yn yr ymholiad proffesiynol hwn, beth fydd hynny yn ei olygu?**

Caiff yr holiadur ei gwblhau ar amser sy'n gyfleus i chi erbyn *[rhowch ddyddiad gorffen] - [eglurwch a yw'r holiadur yn un papur neu ar-lein a faint o amser y dylid ei gymryd i'w gwblhau]*

**A gaiff y data a gesglir yn yr holiadur eu cadw'n gyfrinachol?**

Caiff eich cyfranogiad ei drin yn **gwbl gyfrinachol** yn unol â Deddf Diogelu Data (2018). Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei rhannu â neb arall. Ni fydd data'r holiadur yn cynnwys unrhyw nodweddion y gellir eu defnyddio i adnabod unigolion. Mae'n bosibl y byddaf yn rhannu'r set ddata â fy mentor. Byddaf yn cyflwyno dadansoddiad o'r data a gasglwyd o'r holiadur fel rhan o'm haseiniad. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi fel unigolyn na'r lleoliad.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Drwy gwblhau'r holiadur, rydych yn rhoi eich cydsyniad i gymryd rhan ynddo. Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Gallwch dynnu yn ôl, hyd yn oed ar ôl rhoi cydsyniad cychwynnol, hyd at wythnos ar ôl cwblhau'r holiadur. Caiff unrhyw ddata a gasglwyd eu dinistrio yn yr achos hwn.

**Beth fydd yn digwydd os bydd cwestiynau eraill gennyf?**

Os bydd unrhyw gwestiynau eraill gennych am yr ymholiad, byddwn i'n fwy na pharod i'w hateb, neu byddai fy mentor yn fodlon gwneud hynny. Cysylltwch â mi yn *[rhowch eich enw a chyfeiriad e-bost]* neu fy mentor *[rhowch enw a chyfeiriad e-bost eich mentor].*

# Cyfeiriadau


Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) *Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition (2024)* Ar gael yn: Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition (2024) | BERA (Cyrchwyd: 21/07/2025)

Prifysgol Metropolitan Caerdydd (2019) *Ymgymryd ag ymholiadau proffesiynol: Cyflwyniad ar gyfer ymholwyr arweiniol* Ar gael yn: Microsoft Word - SG CONTENT Ymgymryd ag Ymholiadau Proffesiynol 10.19 (002)-2.docx

Cohen, L. Manion, L. a Morrison, K. (2017) *Research Methods in Education* Rhydychen: Taylor a Francis ProQuest Ebook Central - Book Details

Cyngor y Gweithlu Addysg (Dim dyddiad) *Cyflwyniad i ymchwil* Ar gael yn: Cyflwyniad i Ymchwil (Cyrchwyd: 23/07/2025)

Elton-Chalcraft, Sally, Hanson, A. a Twiselton, S. (2008) *Doing Classroom Research: a Step-By-Step Guide for Student Teachers*. Maidenhead: McGraw-Hill Education ProQuest Ebook Central - Book Details

Lambert, M. (2019) *Practical Research Methods in Education*: An early researcher's critical guide. Llundain: Routledge Practical Research Methods in Education | An Early Researcher's Critic

National Foundation for Education Research (NFER) (Dim dyddiad) *Research in schools: 'How to' guides* Ar gael yn: Research in Schools Guides - NFER (Cyrchwyd: 23/07/2025)